student finance wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Childcare Grant and other support for student parents in full time higher education

in 2010/11

You can get more copies of this booklet by calling our publication line on 0800 731 9133 quoting reference SFW/CCGB/V10. There is a textphone service on 0800 328 8988.

You can also get this booklet in large print, in Braille and on audio tape, free of charge, by phoning our publication line.

The guide is also available on our website at **www.studentfinancewales.co.uk**.

**© Crown copyright September 2009**

ISBN: 978-1-907246-05-0

# Contents

**Introduction** 4

What is Student Finance Wales?
What is student finance?
What is this guide about?
Who is this guide for?

**1 Do I qualify?** 5

**2 What help can I get?** 7

- Childcare Grant
- Parents Learning Allowance
- Adult Dependants' Grant

**3 How do I apply?** 10

**4 Appeals and complaints** 11

**5 How to find out more** 12

**Index** 13

# Introduction

**What is Student Finance Wales?**

Student Finance Wales is a partnership between the Welsh Assembly Government, Local Authorities (LAs) and the Student Loans Company (SLC). The SLC and LAs in Wales work together to deliver financial support to students on behalf of the Welsh Assembly Government.

**What is Student Finance?**

If you're thinking about going into higher education, you're also probably thinking about how you are going to pay for it. Student Finance Wales offers all kind of financial help so that you can make the most of your time at university or college without having to worry about money.

Student finance can be money or services to help you with your tuition fees and living costs while you're studying in higher education. It can include grants, loans, and bursaries. But different student finance packages are available depending on whether you are studying full-time, part-time or a postgraduate course. There's also extra help for those with a disability, mental health condition or specific learning difficulty in the form of Disabled Students' Allowances (DSAs).

**What is this guide about?**

If you have any children or adult dependants and you want to go into higher education, there is financial help available to you, including a Childcare Grant, Parents' Learning Allowance and Adult Dependants' Grant. This guide explains what you can get and how you get it.

**Who is this guide for?**

This guide provides information for current and prospective full-time students in higher education whose homes are in Wales. Similar arrangements apply if you live in Scotland, England, or Northern Ireland. Part-time students with adult or child dependants should read 'A guide to financial support for part-time students in higher education'.

If you do not live in Wales, you can find out more information relevant to where you live at one of these websites.

England – **www.direct.gov.uk/studentfinance**

Northern Ireland – **www.studentfinanceni.co.uk**

Scotland – **www.saas.gov.uk**

EU nationals –
**www.direct.gov.uk/studentfinance-EU**

The information in this booklet is for guidance only and does not cover all circumstances.

If you need more help you can contact the Student Finance Wales contact centre on 0845 602 8845 or your local authority. You can get a list of local authority contact details from the website at **www.studentfinancewales.co.uk**.

If you are an Open University (OU) student you should contact the OU on 01908 653 411 (textphone 01908 659955)

You can get versions of this guide in large print, in Braille and on audio tape, free of charge, by phoning our publication line on 0800 731 9133 quoting reference SFW/CCGB/V10 (textphone 0800 328 8988).

# 1 Do I qualify?

## Summary – what this section is about

This section gives some brief information about the rules we use to establish if you are eligible to receive Childcare Grant.

You can apply for Childcare Grant if you:

- have dependent children under 15 – and they're in registered or approved childcare (childcare that qualifies for the grant)
- have dependent children under 17 with special needs – and they're in registered or approved childcare (childcare that qualifies for the grant)

If you, or your husband, wife or partner, get the childcare element of the Working Tax Credit, you won't be able to get the Childcare Grant as well.

You may also be able to get the Childcare Grant if you:

- normally live in Wales and are studying abroad as part of your UK course, and are able to use childcare provided under a Ministry of Defence accreditation scheme while you're abroad

**Types of childcare that qualify**

Not all types of childcare qualify for the Childcare Grant. The conditions your childcare provider needs to meet vary depending on where in the UK you study. To receive the Childcare Grant, the childcare must be registered or approved by one of the schemes below.

**Childcare in Wales**

If your home is normally in Wales and you are studying in Wales you can apply for the Childcare Grant if you use any of the following types of childcare:

- childcare provided by a childminder, nursery or play scheme registered with the Care and Social Services Inspectorate for Wales (CSSIW).
- childcare provided by out-of-school-hours clubs, located on school grounds and run by a school or local authority
- childcare provided in the child's own home by a care worker or nurse from an agency registered by the Care and Social Services Inspectorate for Wales (CSSIW).
- childcare provided by an approved foster carer (the care must be for a child who is not being fostered by the foster carer)
- childcare provided in the child's own home by a carer approved under the Approval of Child Care Providers Scheme

**Childcare in England**

If your home is in Wales but you are studying in England you can apply for the Childcare Grant if you use any of the following types of childcare:

- childcare providers registered with Ofsted
- childcare provided by a school out of hours – on school premises or on premises that are covered by the Ofsted inspection of the school
- childcare provided by a care worker or nurse from an agency registered with the Commission for Social Care Inspection (this type of childcare can be provided in the child's own home)
- childcare provided by an approved foster carer (the care must be for the child who is not being fostered by the foster carer)

# 1 Do I qualify?

**Childcare in Scotland**

If your home is normally in Wales but you are studying in Scotland, you may be able to receive the Childcare Grant if you use any of the following types of childcare:

- childcare provided by a childminder, nursery or play schemes registered by the Scottish Commission for the Regulation of Care
- childcare provided by out-of-school-hours clubs registered with the Scottish Commission for the Regulation of Care, located on school grounds and run by a school or local authority
- childcare provided by an approved foster carer (the care must be for a child who is not being fostered by the foster carer)
- childcare provided in the child's own home by (or introduced through) a childcare agency, sitter service or nanny agency that is registered with the Scottish Commission for the Regulation of Care

**Childcare in Northern Ireland**

If your home is normally in Wales but you are studying in Northern Ireland, you may be able to receive the Childcare Grant if you use any of the following types of childcare:

- childcare provided by a childminder, nursery or play scheme registered by a Health and Social Services Trust
- childcare provided by an out-of-school-hours club, located on school grounds and run by a school, or by an Education and Library Board or registered by a Health and Social Services Trust
- childcare provided by an approved foster carer (the care must be for a child who is not being fostered by the foster carer)
- childcare provided in the child's own home by a carer approved under the Approval of Home Child Care Providers Scheme

**What if the registered or approved childcare provider I use is my partner or a relative of my child?**

You will not be able to receive the Childcare Grant if the childcare is provided by a registered or approved childcare provider who:

- is your partner;
- is a relative of your child and providing care in your child's home;
- is a relative of your child and is:

– approved under the Approval of Child Care Providers Scheme in Wales, or the Approval of Home Child Care Providers Scheme in Northern Ireland;

– providing care away from your child's home; and

– only caring for children he or she is related to.

A relative of the child means a parent, grandparent, aunt, uncle, brother or sister related by blood or marriage, or a person with a strong relationship to the child (for example, someone acting as a parent to their partner's children). If you have any questions about the meaning of 'relative', ask us or your local authority.

# 2 What help can I get?

## Summary – what this section is about

This section tells you about the different types of help available to full-time students with children. For details about other student finance you should refer to our other publications – details of these are in section 5.

| Childcare Grant | |
|---|---|
| What is it for? | The grant can help with childcare costs if you have dependent children aged under 15 at the beginning of the academic year – or under 17 if they have special educational needs – and they are in registered or approved childcare. |
| How much can I get? | Depending on your household income you can apply for 85% of your actual childcare costs during term times and holidays. You can get up to £161.50 a week for one child or up to £274.55 a week for more than one child. |
| How is it paid? | Usually in three instalments, one at the start of each term, into your bank account. |
| Do I have to pay it back? | No, unless you have been overpaid. |
| Anything else? | If, as a full-time student, you can claim income related benefits, Jobcentre Plus and your local authority's Housing Benefits section should not take account of any Childcare Grant you receive when they are working out the benefit you are entitled to.<br><br>You cannot get this grant if you or your husband, wife or partner receives the childcare part of the Working Tax Credit from HM Revenue & Customs.<br><br>All three and four-year-olds are entitled to a free, part-time early-learning place (for 12 ½ hours a week, 38 weeks a year) in a preschool setting such as a nursery. You do not have to pay any fee for your child's free early-learning place and so a Childcare Grant cannot be paid for a period during which your child is at nursery. You can find out more information about free early-learning places from the Childcare Link on 0800 096 0296 (freephone). Or, you can visit the website at **www.childcarelink.gov.uk**. |

# 2 What help can I get?

| Parents’ Learning Allowance | |
|---|---|
| What is it for? | The allowance can help with course-related costs if you have dependent children. |
| How much can I get? | The amount you receive depends on your income, the income of your husband, wife or partner (if you have one) and that of your dependants. You can get up to £1,508 a year. |
| How is it paid? | Usually in three instalments, one at the start of each term, into your bank account. |
| Do I have to pay it back? | No, unless you have been overpaid. |
| Anything else? | Jobcentre Plus and your local authority’s Housing Benefits section do not count Parents’ Learning Allowance when working out your other benefits, so you do not have to choose between Parents’ Learning Allowance and those other benefits.<br><br>You can apply for Parents’ Learning Allowance even if you do not get the Childcare Grant. |

| Adult Dependants’ Grant | |
|---|---|
| What is it for? | The grant should help if you have an adult who depends on you financially. (The adult cannot be any of your children.) |
| How much can I get? | The amount of Adult Dependants’ Grant you can receive depends on your income and the income of your dependants (including your husband, wife or partner). You can get up to £2,647 a year. |
| How is it paid? | Usually in three instalments, one at the start of each term, into your bank account. |
| Do I have to pay it back? | No, unless you have been overpaid. |
| Anything else? | Any Adult Dependants' Grant you get will be counted as income when working out your entitlement to benefits. |

# 2 What help can I get?

### Child Tax Credit from HM Revenue & Customs

If you are a student with dependent children, you may be entitled to claim Child Tax Credit. Student loans and grants to meet the costs of tuition fees, childcare and other course-related costs are not treated as income for tax credits purposes. However, the Adult Dependants' Grant will be taken into account as income. If you are receiving the maximum amount of Child Tax Credit (and no Working Tax Credit) you are also entitled to free school meals for your children. You can get more information from the HM Revenue & Customs helpline on 0845 300 3900 (textphone: 0845 300 3909) or by visiting the website at **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**.

### Benefits

Most full-time students are not entitled to income-related benefits. However certain groups (including single parents, student couples with dependent children and some disabled students) may be eligible for income-related benefits including Housing Benefit. If you want to take a full-time course of education, you should ask your local Jobcentre Plus office and your local authority's Housing Benefit section how this may affect your benefits.

If you are eligible for benefits, Jobcentre Plus and your local authority's Housing Benefit section will take account of most of any Maintenance Loan (and some student grants) that you are entitled to. If you receive the Special Support Grant this will not be taken into account.

# 3 How do I apply?

## Summary – what this section is about

So now you know what financial support is available, how do you get it? This section contains information on how to apply for any financial support that you may be eligible for.

**1** Complete your application for student finance making sure you complete the relevant sections.

If you have indicated you would like to apply for Childcare Grant you should complete the **Application for help with childcare cost**.

**2** Your local authority (LA) will assess your application and send you a letter to let you know what student finance you can get.

**3** If you have applied for the Childcare Grant your LA will ask you to fill in a **Confirmation of childcare payments** form at the end of each childcare period.

**Step 1**

To apply for the Childcare Grant, Parents' Learning Allowance or Adult Dependants' Grant you should complete the relevant section of the main application form for student finance. If you have applied for Childcare Grant, your local authority will then send you a separate **Application for help with childcare cost** for you to provide information about your childcare needs and details of your childcare provider. Alternatively you can download the form from **www.studentfinancewales.co.uk** or phone us on 0845 602 8845 to have a copy sent to you.

**Step 2**

Your local authority will then assess your application based on the estimates you provide and send you a Financial Notification Letter detailing how much Childcare Grant you are entitled to. This letter also details any other student finance you may be entitled to.

**Step 3**

At the end of each childcare period your local authority will send you a **Confirmation of childcare payments** to complete. This asks for evidence of payments you have made to your childcare provider and lets you confirm what your actual costs were for the first childcare period. If you have overpaid or underpaid we will reduce or increase your next instalment of Childcare Grant.

You can also download the **Application for help with childcare cost** and **Confirmation of childcare payments** from **www.studentfinancewales.co.uk**.
You can get versions in large print, in Braille and on audio tape, free of charge, by calling our publication line on 0800 731 9133 (textphone: 0800 328 8988).

# 4 Appeals and complaints

**Appeals**

Your local authority will have a formal appeals procedure which will be available upon request.

This will usually involve the Head of Service at the local authority investigating the reasons why you have been refused support.

**Complaints**

All organisations involved in the student support process have clearly defined complaints procedures. You will need to first establish who the complaint is to be made against or contact the department you last dealt with and ask for a complaint to be logged.

- Your local authority will be responsible for assessing your claim for support.
- The Student Loans Company will be responsible for operational services and the processing of your student award payment.
- The Welsh Assembly Government will be responsible for providing policy guidance.

**Contacts**

You should contact your local authority for details of their complaints procedure.

You can get a list of your local authority contact details from the website at **www.studentfinancewales.co.uk**.

**Complaints Unit**
**Welsh Assembly Government**
**Crown Buildings**
**Cathays Park**
**Cardiff**
**CF10 3NQ**

**Telephone: 029 2080 1378**
**Fax: 029 2082 6869**
**Email: complaints@wales.gsi.gov.uk**

**Customer Assistance**
**Student Loans Company Limited (SLC)**
**100 Bothwell Street**
**Glasgow**
**G2 7JD**
**Email: Customer_complaints@slc.co.uk**

The public service ombudsman can also offer advice regarding a complaint against the service you have received.

**Public Service Ombudsman For Wales**
**1 Ffordd yr Hen Cae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

**Telephone: 01656 641 150**
**Fax: 01656 641 199**
**Email: ask@ombudsman-wales.co.uk**

# 5 How to find out more

You can get extra copies of this guide and the following student finance guides by:

- calling our publication line on 0800 731 9133 (textphone 0800 328 8988); or
- visiting the Student Finance Wales website at **www.studentfinancewales.co.uk** and downloading a copy. You can also get copies in Braille, on audio tape and in large print.

1 **Information about help for full-time students** – Get the guide 'A guide to financial support for full-time higher education students' (reference SFW/FSHE/V10).

2 **Information about help for part-time students** – Get the guide 'A guide to financial support for part-time students in higher education' (reference SFW/FSPT/V10).

3 **Information about student loans** – Get the guide 'Student Loans – a guide to terms and conditions' (reference SFW/SLTC/V10).

4 **Help for students with disability** – Get the guide 'Bridging the gap: A guide to the Disabled Students' Allowances (DSAs) in higher education' (reference SFW/BTGB/V10).

**Contacting Student Finance Wales**

You can phone Student Finance Wales Contact Centre on 0845 602 8845 between 8am to 8pm Monday to Friday, and between 9am and 1pm on Saturday.

**Other useful contacts**

**Support from other organisations**

**Undergraduate and postgraduate NHS students**

If you receive an NHS bursary, or plan to apply for one, you should contact your university or college for details of any additional support that is available.

**NHS Wales Student Awards Unit**
**3rd Floor**
**14 Cathedral Road**
**Cardiff**
**CF11 9LJ**
**Phone: 029 2019 6167 (Bursary Enquiries)**

# Index


**A** Adult Dependants Grant 8
Applying for Childcare Grant 10
Approved childcare 5
Appeals 11

**B** Benefits 9

**C** Childcare Grant 7
Child Tax Credit 9
Childcare Link 7
Care and Social Services Inspectorate for Wales (CSSIW) 5
Complaints 11

**D** Disabled Students' Allowances (DSAs) See Bridging the Gap Guide SFW/BTGB/V10

**E** England 5
EU students (Non-UK) 4

**H** HM Revenue & Customs 9
Housing Benefit 9

**N** NHS Bursary 12
Northern Ireland 4

**O** Ombudsman for Wales 11
Open University 4

**P** Parents Learning Allowance 8
Part-time students See Part-time students guide SFW/FSPT/V10

**R** Registered childcare 5

**S** Scotland 6
Student Finance Wales Contact Centre 12
Student Loans Company (SLC) for Operational Service and Award Payment 11

**W** Welsh Assembly Government 11

cyllid myfyrwyr cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Grant Gofal Plant a chymorth arall ar gyfer myfyrwyr sy'n rhieni mewn addysg uwch amser llawn

yn 2010/11

Gallwch gael rhagor o gopïau o'r llyfryn hwn trwy ffonio ein llinell gyhoeddiadau ar 0800 731 9133 gan ddyfynnu cyfeirnod SFW/CCGB/V10. Mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar 0800 328 8988.

Gallwch hefyd dderbyn y llyfryn hwn mewn print bras, Braille ac ar dâp sain, yn rhad ac am ddim trwy ffonio ein llinell gyhoeddiadau.

Mae'r canllaw hefyd ar gael ar ein gwefan yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**.

**© Hawlfraint y Goron Medi 2009**

ISBN: 978-1-907246-05-0

# Cynnwys

**Cyflwyniad** 4

Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?
Beth yw cyllid i fyfyrwyr?
Am beth mae'r canllaw yn sôn?
Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?

**1 Ydw i'n gymwys?** 5

**2 Pa gymorth sydd ar gael i mi?** 7

- Grant Gofal Plant
- Lwfans Dysgu Rhieni
- Grant Oedolion Dibynnol

**3 Sut ydw i'n ymgeisio?** 10

**4 Apeliadau a chwynion** 11

**5 Sut i gael rhagor o wybodaeth** 12

**Mynegai** 13

# Cyflwyniad

**Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?**

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdodau Lleol (ALlau) a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC). Mae'r SLC ac ALlau yng Nghymru yn cydweithio i ddarparu cymorth ariannol i fyfyrwyr ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Beth yw cyllid i fyfyrwyr?**

Os ydych yn ystyried astudio mewn addysg uwch, mae'n siŵr eich bod hefyd yn ystyried sut i dalu amdano. Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn cynnig pob math o gymorth ariannol er mwyn i chi allu gwneud y gorau o'ch amser yn y brifysgol neu goleg heb orfod poeni am arian.

Gall cyllid i fyfyrwyr fod yn arian neu wasanaethau i'ch helpu gyda'ch ffioedd dysgu a chostau byw wrth astudio mewn addysg uwch. Gall gynnwys grantiau, benthyciadau a bwrsariaethau. Ond mae gwahanol becynnau cyllid i fyfyrwyr ar gael yn ddibynnol ar p'un a ydych yn astudio amser llawn, rhan amser neu ar gwrs ôl-raddedig. Mae cymorth ychwanegol ar gael hefyd ar gyfer unigolion gydag anabledd, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol trwy Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs).

**Am beth mae'r canllaw yn sôn?**

Os oes gennych blant neu oedolion dibynnol a'ch bod eisiau mynd i addysg uwch, mae cymorth ariannol ar gael i chi, yn cynnwys Grant Gofal Plant, Lwfans Dysgu Rhieni a Grant Oedolion Dibynnol. Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth sydd ar gael i chi a sut i'w hawlio.

**Ar gyfer pwy mae'r canllaw hwn?**

Mae'r canllaw hwn yn rhoi gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr presennol a darpar fyfyrwyr addysg uwch amser llawn sydd â'u cartrefi yng Nghymru. Ceir trefniadau tebyg os ydych yn byw yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Dylai myfyrwyr rhan amser gydag oedolion neu blant dibynnol ddarllen 'Canllaw i gymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr rhan amser mewn addysg uwch'.

Os nad ydych yn byw yng Nghymru, gallwch ddod o hyd i wybodaeth sy'n berthnasol i ble rydych chi'n byw ar un o'r gwefannau hyn.

Lloegr – **www.direct.gov.uk/studentfinance**

Gogledd Iwerddon – **www.studentfinanceni.co.uk**

Yr Alban – **www.saas.gov.uk**

Gwladolion yr UE –
**www.direct.gov.uk/studentfinance-EU**

Dylid defnyddio'r wybodaeth yn y llyfryn hwn fel canllaw yn unig gan nad yw'n cynnwys pob amgylchiad.

Os ydych eisiau rhagor o gymorth, gallwch gysylltu â chanolfan gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 neu'ch awdurdod lleol. Cewch restr o fanylion cyswllt awdurdodau lleol ar ein gwefan yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**.

Os ydych yn fyfyriwr y Brifysgol Agored, dylech gysylltu â'r Brifysgol ar 01908 653 411 (ffôn testun 01908 659955).

Gallwch gael fersiynau o'r canllaw hwn mewn print bras, Braille ac ar dâp sain yn rhad ac am ddim trwy ffonio ein llinell gyhoeddiadau ar 0800 731 9133 a dyfynnu cyfeirnod SFW/CCGB/V10 (ffôn testun 0800 328 8988).

# 1 Ydw i'n gymwys?

## Crynodeb – am beth mae'r adran hon yn sôn

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth gryno i chi am y rheolau a ddefnyddiwn i bennu p'un a ydych yn gymwys i dderbyn Grant Gofal Plant.

Gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant os:

- oes gennych blant dibynnol dan 15 oed – a'u bod yn derbyn gofal plant cofrestredig neu a gymeradwywyd (gofal plant sy'n gymwys ar gyfer y grant)
- oes gennych blant dibynnol dan 17 oed gydag anghenion arbennig – a'u bod yn derbyn gofal plant cofrestredig neu a gymeradwywyd (gofal plant sy'n gymwys ar gyfer y grant)

Os ydych chi, neu'ch gŵr, gwraig neu bartner, yn derbyn elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith, ni fyddwch yn gallu cael y Grant Gofal Plant hefyd.

Efallai y byddwch hefyd yn gallu cael y Grant Gofal Plant os:

- ydych fel arfer yn byw yng Nghymru ac yn astudio dramor fel rhan o'ch cwrs yn y Deyrnas Unedig, ac yn gallu defnyddio gofal plant a ddarperir dan gynllun achredu'r Weinyddiaeth Amddiffyn tra'ch bod dramor

### Mathau o ofal plant sy'n gymwys

Nid yw pob math o ofal plant yn gymwys ar gyfer Grant Gofal Plant. Gallai'r amodau mae'n rhaid i'ch darparwr gofal plant fodloni amrywio yn ddibynnol ar ble yn y Deyrnas Unedig fyddwch yn astudio. I dderbyn y Grant Gofal Plant, rhaid i'r darparwr gofal fod wedi cofrestru gyda neu fod wedi ei gymeradwyo gan un o'r cynlluniau isod.

### Gofal Plant yng Nghymru

Os yw'ch cartref fel arfer yng Nghymru a'ch bod yn astudio yng Nghymru, gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant os ydych yn defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant:

- gofal plant wedi ei ddarparu gan ofalwr plant, meithrinfa neu gynllun chwarae sydd wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- gofal plant a ddarperir gan glybiau tu allan i oriau ysgol, wedi eu lleoli ar dir ysgol ac yn cael eu rhedeg gan ysgol neu awdurdod lleol
- gofal plant a ddarperir yng nghartref y plentyn gan weithiwr gofal neu nyrs o asiantaeth wedi ei gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC).
- gofal plant a ddarperir gan ofalwr maeth cymeradwy (rhaid i'r gofal fod ar gyfer plentyn nad yw'n cael ei faethu gan y gofalwr maeth)
- gofal plant a ddarperir yng nghartref y plentyn gan ofalwr a gymeradwywyd dan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant

### Gofal Plant yn Lloegr

Os yw'ch cartref fel arfer yng Nghymru ond eich bod yn astudio yn Lloegr, gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant os ydych yn defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant:

- darparwyr gofal plant wedi cofrestru gydag Ofsted
- gofal plant a ddarperir gan ysgol tu allan i oriau – ar eiddo ysgol neu ar eiddo sydd wedi ei gynnwys yn archwiliad Ofsted yr ysgol
- gofal plant a ddarperir gan weithiwr gofal neu nyrs o asiantaeth wedi cofrestru gyda'r Comisiwn Arolygu Gofal Cymdeithasol (gellir darparu'r math hwn o ofal plant yng nghartref y plentyn)
- gofal plant a ddarperir gan ofalwr maeth cymeradwy (rhaid i'r gofal fod ar gyfer plentyn nad yw'n cael ei faethu gan y gofalwr maeth)

# 1 Ydw i'n gymwys?

**Gofal Plant yn yr Alban**

Os yw'ch cartref fel arfer yng Nghymru ond eich bod yn astudio yn yr Alban, efallai y gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant os ydych yn defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant:

- gofal plant a ddarperir gan ofalwr plant, meithrinfa neu gynlluniau chwarae a gofrestrwyd gan y Scottish Commission for the Regulation of Care
- gofal plant a ddarperir gan glybiau tu allan i oriau ysgol, wedi eu cofrestru gyda'r Scottish Commission for the Regulation of Care, wedi eu lleoli ar dir ysgol ac yn cael eu rhedeg gan ysgol neu awdurdod lleol
- gofal plant a ddarperir gan ofalwr maeth cymeradwy (rhaid i'r gofal fod ar gyfer plentyn nad yw'n cael ei faethu gan y gofalwr maeth)
- gofal plant a ddarperir yng nghartref y plentyn gan (neu wedi ei gyflwyno trwy) asiantaeth gofal plant, gwasanaeth gwarchod neu asiantaeth nani sydd wedi cofrestru gyda'r Scottish Commission for the Regulation of Care

**Gofal Plant yng Ngogledd Iwerddon**

Os yw'ch cartref fel arfer yng Nghymru ond eich bod yn astudio yng Ngogledd Iwerddon, efallai y gallwch wneud cais am Grant Gofal Plant os ydych yn defnyddio unrhyw un o'r mathau canlynol o ofal plant:

- gofal plant a ddarperir gan ofalwr plant, meithrinfa neu gynllun chwarae a gofrestrwyd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol
- gofal plant a ddarperir gan glwb tu allan i oriau ysgol, wedi ei leoli ar dir ysgol a'i redeg gan ysgol, neu gan Fwrdd Addysg a Llyfrgelloedd neu wedi ei gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol
- gofal plant a ddarperir gan ofalwr maeth cymeradwy (rhaid i'r gofal fod ar gyfer plentyn nad yw'n cael ei faethu gan y gofalwr maeth)
- gofal plant a ddarperir yng nghartref y plentyn gan ofalwr a gymeradwywyd dan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref

**Beth os yw'r darparwr gofal plant cofrestredig neu gymeradwy a ddefnyddiaf yn bartner i mi neu'n berthynas i'm plentyn?**

Ni fyddwch yn gallu derbyn y Grant Gofal Plant os darperir y gofal plant gan ddarparwr cofrestredig neu gymeradwy sydd:

- yn bartner i chi;
- yn berthynas i'ch plentyn ac yn darparu'r gofal yng nghartref eich plentyn;
- yn berthynas i'ch plentyn ac:

– wedi ei gymeradwyo dan y Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yng Nghymru, neu'r Cynllun Darparwyr Gofal i Blant yn y Cartref yng Ngogledd Iwerddon;

– yn darparu gofal tu allan i gartref eich plentyn; a

– dim ond yn gofalu am blant sy'n perthyn iddo ef neu hi.

Golyga perthynas i'r plentyn riant, taid neu nain, modryb, ewythr, brawd neu chwaer sy'n perthyn trwy waed neu briodas, neu unigolyn gyda pherthynas gref â'r plentyn (er enghraifft, rhywun yn gweithredu fel rhiant i blant eu partner). Os oes gennych unrhyw gwestiynau am ystyr 'perthynas', holwch ni neu'ch awdurdod lleol.

# 2 Pa gymorth sydd ar gael i mi?

## Crynodeb – am beth mae'r adran hon yn sôn

Mae'r adran hon yn rhoi gwybod i chi am y gwahanol fathau o gymorth sydd ar gael i fyfyrwyr amser llawn gyda phlant. I gael manylion am fathau eraill o gyllid i fyfyrwyr, dylech gyfeirio at ein cyhoeddiadau eraill – mae eu manylion i'w cael yn adran 5.

| **Grant Gofal Plant** | |
|---|---|
| Beth yw diben hwn? | Gall y grant eich helpu gyda chostau gofal plant os oes gennych blant dibynnol dan 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd - neu dan 17 os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig - a'u bod yn derbyn gofal cofrestredig neu gymeradwy. |
| Faint ydw i'n gallu derbyn? | Yn ddibynnol ar incwm eich cartref, gallwch wneud cais am 85% o'ch gwir gostau gofal plant yn ystod y tymor a gwyliau. Gallwch dderbyn hyd at £161.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu hyd at £274.55 yr wythnos ar gyfer mwy nag un plentyn. |
| Sut mae'n cael ei dalu? | Fel arfer mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i mewn i'ch cyfrif banc. |
| Oes rhaid i mi ei dalu yn ôl? | Na, dim ond os ydych wedi derbyn gormod o daliad. |
| Unrhyw beth arall? | Os gallwch hawlio budd-daliadau yn ymwneud ag incwm fel myfyriwr amser llawn, ni ddylai'r Ganolfan Byd Gwaith nac adran Budd-daliadau Tai eich awdurdod lleol gymryd sylw o unrhyw Grant Gofal Plant a dderbyniwch wrth gyfrifo faint o fudd-dal mae gennych hawl iddo.<br><br>Ni allwch dderbyn y grant hwn os ydych chi neu'ch gŵr, gwraig neu bartner yn derbyn yr elfen gofal plant o'r Credyd Treth Gwaith gan Gyllid a Thollau EM.<br><br>Mae gan bob plentyn tair a phedair oed hawl i le dysgu cynnar rhan amser am ddim (am 12½ awr yr wythnos, 38 wythnos o'r flwyddyn) mewn lleoliad cyn oed ysgol megis meithrinfa. Nid oes rhaid i chi dalu unrhyw ffi am le dysgu cynnar am ddim eich plentyn ac felly ni ellir talu Grant Gofal Plant ar gyfer y cyfnod pan fydd eich plentyn yn y feithrinfa. Ceir rhagor o wybodaeth am leoedd dysgu cynnar gan Childcare Link ar 0800 096 0296 (rhadffôn). Neu gallwch fynd i'r wefan yn **www.childcarelink.gov.uk**. |

# 2 Pa gymorth sydd ar gael i mi?

| Lwfans Dysgu Rhieni | |
|---|---|
| Beth yw diben hwn? | Gall y lwfans eich helpu gyda chostau'n gysylltiedig â'ch cwrs os oes gennych blant dibynnol. |
| Faint ydw i'n gallu derbyn? | Mae'r swm fyddwch yn derbyn yn ddibynnol ar eich incwm, incwm eich gŵr, gwraig neu bartner (os oes gennych un) a'ch dibynyddion. Gallwch dderbyn hyd at £1,508 y flwyddyn. |
| Sut mae'n cael ei dalu? | Fel arfer mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i mewn i'ch cyfrif banc. |
| Oes rhaid i mi ei dalu yn ôl? | Na, dim ond os ydych wedi derbyn gormod o daliad. |
| Unrhyw beth arall? | Nid yw'r Ganolfan Byd Gwaith nac adran Budd-daliadau Tai eich awdurdod lleol yn cyfrif eich Lwfans Dysgu Rhieni wrth gyfrifo'ch budd-daliadau eraill, felly ni fydd rhaid i chi ddewis rhwng Lwfans Dysgu Rhieni a budd-daliadau eraill.<br><br>Gallwch wneud cais am Lwfans Dysgu Rhieni hyd yn oed os nad ydych yn derbyn y Grant Gofal Plant. |

| Grant Oedolion Dibynnol | |
|---|---|
| Beth yw diben hwn? | Dylai'r grant eich helpu os oes oedolyn sy'n dibynnu'n ariannol arnoch. (Ni all yr oedolyn fod yn blentyn i chi.) |
| Faint ydw i'n gallu derbyn? | Mae faint o Grant Oedolion Dibynnol y gallwch dderbyn yn ddibynnol ar eich incwm ac incwm eich dibynyddion (yn cynnwys eich gŵr, gwraig neu bartner). Gallwch dderbyn hyd at £2,647 y flwyddyn. |
| Sut mae'n cael ei dalu? | Fel arfer mewn tri rhandaliad, un ar ddechrau pob tymor, i mewn i'ch cyfrif banc. |
| Oes rhaid i mi ei dalu yn ôl? | Na, dim ond os ydych wedi derbyn gormod o daliad. |
| Unrhyw beth arall? | Bydd unrhyw Grant Oedolion Dibynnol a dderbyniwch yn cael ei gyfrif fel incwm wrth gyfrifo eich hawl i fudd-daliadau. |

# 2 Pa gymorth sydd ar gael i mi?

**Credyd Treth Plant o Gyllid a Thollau EM**

Os ydych yn fyfyriwr gyda phlant dibynnol, efallai bod gennych hawl i Gredyd Treth Plant. Ni ystyrir benthyciadau na grantiau myfyrwyr ar gyfer talu costau ffioedd dysgu, gofal plant a chostau eraill sy'n gysylltiedig â'ch cwrs fel incwm ar gyfer credydau treth. Fodd bynnag, bydd y Grant Oedolion Dibynnol yn cael ei ystyried fel incwm. Os ydych yn derbyn yr uchafswm o Gredyd Treth Plant (a dim Credyd Treth Gwaith), mae gennych hefyd hawl i brydau ysgol am ddim ar gyfer eich plant. Cewch ragor o wybodaeth gan linell gymorth Cyllid a Thollau EM ar 0845 300 3900 (ffôn testun: 0845 300 3909) neu trwy fynd i'r wefan yn **www.hmrc.gov.uk/taxcredits**.

**Budd-daliadau**

Nid oes gan y rhan fwyaf o fyfyrwyr amser llawn hawl i fudd-daliadau yn ymwneud ag incwm. Fodd bynnag, efallai y bydd rhaid grwpiau (gan gynnwys rhieni sengl, cyplau sy'n fyfyrwyr gyda phlant dibynnol a rhai myfyrwyr anabl) yn gymwys am fudd-daliadau'n ymwneud ag incwm yn cynnwys Budd-dal Tai. Os ydych eisiau astudio cwrs amser llawn, dylech ofyn i'ch Canolfan Byd Gwaith lleol ac adran Budd-daliadau Tai eich awdurdod lleol sut gall hyn yn effeithio ar eich budd-daliadau.

Os ydych yn gymwys am fudd-daliadau, bydd y Ganolfan Byd Gwaith ac adran Budd-daliadau Tai eich awdurdod lleol yn ystyried y rhan fwyaf o unrhyw Fenthyciad Cynhaliaeth (a rhai grantiau myfyrwyr) y mae gennych hawl iddynt. Os ydych yn derbyn y Grant Cymorth Arbennig, ni fydd yn cael ei ystyried.

# 3 Sut ydw i'n ymgeisio?

## Crynodeb – am beth mae'r adran hon yn sôn

Felly, nawr eich bod yn gwybod pa gymorth ariannol sydd ar gael, sut allwch chi ei dderbyn? Mae'r adran hon yn cynnwys gwybodaeth ar sut i ymgeisio am gymorth ariannol y gallech fod yn gymwys amdano.

**1** Cwblhewch eich cais am gyllid i fyfyrwyr gan sicrhau eich bod yn llenwi'r adrannau perthnasol.

Os ydych wedi nodi yr hoffech wneud cais am Grant Gofal Plant dylech gwblhau'r ffurflen gais **Cais am gymorth gyda chostau gofal plant**.

**2** Bydd eich awdurdod lleol (ALl) yn asesu'ch cais ac yn anfon llythyr i roi gwybod i chi pa gyllid i fyfyrwyr sydd ar gael i chi.

**3** Os ydych wedi gwneud cais am y Grant Gofal Plant bydd eich ALl yn gofyn i chi gwblhau ffurflen **Cadarnhad taliadau gofal plant** ar ddiwedd pob cyfnod gofal plant.

### Cam 1

I wneud cais am Grant Gofal Plant, Lwfans Dysgu Rhieni neu Grant Oedolion Dibynnol dylech gwblhau'r adran berthnasol yn y brif ffurflen gais ar gyfer cyllid i fyfyrwyr. Os ydych wedi gwneud cais am Grant Gofal Plant, bydd eich awdurdod lleol yn anfon ffurflen **Cais am gymorth gyda chostau gofal plant** atoch ar wahân i chi ddarparu gwybodaeth am eich anghenion gofal plant a manylion eich darparwr gofal plant. Neu gallwch lawrlwytho'r ffurflen o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** neu ffonio ni ar 0845 602 8845 a gofyn i ni anfon copi atoch.

### Cam 2

Yna bydd eich awdurdod lleol yn asesu'ch cais yn seiliedig ar eich amcangyfrifon ac yn anfon Llythyr Hysbysiad Ariannol atoch yn esbonio faint o Grant Gofal Plant mae gennych hawl iddo. Mae'r llythyr hwn hefyd yn rhoi manylion am unrhyw gyllid i fyfyrwyr y gallai fod gennych hawl iddo.

### Cam 3

Ar ddiwedd pob cyfnod gofal plant, bydd eich awdurdod lleol yn anfon ffurflen **Cadarnhad taliadau gofal plant** atoch i'w cwblhau. Bydd yn gofyn am dystiolaeth o daliadau a wnaed gennych i'ch darparwr gofal plant ac yn gadael i chi gadarnhau beth oedd eich gwir gostau ar gyfer y cyfnod gofal plant cyntaf. Os ydych wedi talu gormod neu heb dalu digon byddwn yn cynyddu neu leihau eich rhandaliad nesaf o'r Grant Gofal Plant.

Gallwch hefyd lawrlwytho'r ffurflen **Cais am gymorth gyda chostau gofal plant** a'r ffurflen **Cadarnhad taliadau gofal plant** o **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**. Gallwch dderbyn fersiynau print bras, mewn Braille ac ar dâp sain yn rhad ac am ddim trwy ffonio ein llinell gyhoeddiadau ar 0800 731 9133 (ffôn testun: 0800 328 8988).

# 4 Apeliadau a chwynion

**Apeliadau**

Bydd gan eich awdurdod lleol weithdrefn apeliadau ffurfiol fydd ar gael i chi ar gais.

Bydd hyn fel arfer yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth yn yr awdurdod lleol yn ymchwilio pam y gwrthodwyd cymorth i chi.

**Cwynion**

Mae gan bob sefydliad sy'n gysylltiedig â'r broses cymorth i fyfyrwyr weithdrefnau cwyno pendant. Yn gyntaf bydd angen i chi sefydlu yn erbyn pwy mae'r cwyn yn cael ei wneud neu gysylltu â'r adran y delioch â nhw ddiwethaf a gofyn i gofnodi cwyn.

- Bydd eich awdurdod lleol yn gyfrifol am asesu'ch cais am gymorth.
- Bydd y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr yn gyfrifol am wasanaethau gweithredol ac am brosesu eich taliad dyfarniad myfyriwr.
- Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am ddarparu arweiniad ar bolisi.

**Cysylltiadau**

Dylech gysylltu â'ch awdurdod lleol am fanylion eu gweithdrefnau cwynion.

Cewch restr o fanylion cyswllt eich awdurdod lleol ar ein gwefan yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk**.

**Uned Gwynion**
**Llywodraeth Cynulliad Cymru**
**Adeilad y Goron**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3NQ**

**Ffôn: 029 2080 1378**
**Ffacs: 029 2082 6869**
**E-bost: complaints@wales.gsi.gov.uk**

**Cymorth i Gwsmeriaid**
**Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr Cyfyngedig (SLC)**
**100 Bothwell Street**
**Glasgow**
**G2 7JD**

**E-bost: Customer_complaints@slc.co.uk**

Gall yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus gynnig cyngor am gwynion yn erbyn y gwasanaeth a dderbynioch.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**
**1 Ffordd yr Hen Gae**
**Pencoed**
**CF35 5LJ**

**Ffôn: 01656 641 150**
**Ffacs: 01656 641 199**
**E-bost: ask@ombudsman-wales.co.uk**

# 5 Sut i gael rhagor o wybodaeth

Gallwch gael copïau ychwanegol o'r canllaw hwn a'r canllawiau canlynol i fyfyrwyr trwy:

- ffonio ein llinell gyhoeddiadau ar 0800 731 9133 (ffôn testun 0800 328 8988); neu
- ymweld â gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru yn **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk** a lawrlwytho copi. Gallwch hefyd gael copïau mewn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras.

1 **Gwybodaeth am gyngor ar gyfer myfyrwyr amser llawn** – Casglwch gopi o'r canllaw 'Canllaw i gefnogaeth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch amser llawn' (cyfeirnod SFW/FSHE/V10).

2 **Gwybodaeth am gyngor ar gyfer myfyrwyr rhan amser** – Casglwch gopi o'r canllaw 'Canllaw i gefnogaeth ariannol ar gyfer myfyrwyr addysg uwch rhan amser' (cyfeirnod SFW/FSPT/V10).

3 **Gwybodaeth am fenthyciadau myfyrwyr** – Casglwch gopi o'r canllaw 'Benthyciadau Myfyrwyr – canllaw i amodau a thelerau' (cyfeirnod SFW/SLTC/V10).

4 **Cymorth i fyfyrwyr gydag anabledd** – Casglwch gopi o'r canllaw 'Pontio'r Bwlch: Canllaw i Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) mewn addysg uwch' (cyfeirnod SFW/BTGB/V10).

**Cysylltu â Chyllid Myfyrwyr Cymru**

Gallwch ffonio Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru ar 0845 602 8845 rhwng 8yb ac 8yh o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, a rhwng 9yb ac 1yh ar Ddydd Sadwrn.

**Cysylltiadau defnyddiol eraill**

**Cymorth gan sefydliadau eraill**

**Myfyrwyr GIG israddedig ac ôl-raddedig**

Os ydych yn derbyn bwrsariaeth GIG, neu'n bwriadu gwneud cais am un, dylech gysylltu â'ch prifysgol neu goleg am fanylion unrhyw gymorth ychwanegol sydd ar gael.

**Uned Gwobrwyo Myfyrwyr y GIG Cymru**
**3ydd Llawr,**
**14 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**
**Ffôn: 029 2019 6167 (Ymholiadau Bwrsariaeth)**

# Mynegai


**A** Apeliadau 11
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) 5

**B** Budd-daliadau 9
Budd-daliadau Tai 9
Bwrsariaeth y GIG 12

**C** Canolfan Gyswllt Cyllid Myfyrwyr Cymru 12
Childcare Link 7
Credyd Treth Plant 9
Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr ar gyfer Gwasanaeth Gweithredol a Thalu Dyfarniadau 11
Cwynion 11
Cyllid a Thollau EM 9

**G** Gofal plant a gymeradwywyd 5
Gofal plant cofrestredig 5
Gogledd Iwerddon 4
Grant Gofal Plant 7
Grant Oedolion Dibynnol 8
Gwneud cais am Grant Gofal Plant 10

**L** Lwfans Dysgu Rhieni 8
Lwfansau i Fyfyrwyr Anabl (DSAs) gweler Canllaw Pontio'r Bwlch SFW/BTGB/V10

**Ll** Lloegr 5
Llywodraeth Cynulliad Cymru 11

**M** Myfyrwyr o'r UE (nid o'r Deyrnas Unedig) 4
Myfyrwyr rhan amser gweler Canllaw Myfyrwyr Rhan Amser SFW/FSPT/V10

**O** Ombwdsmon Cymru 11

**P** Prifysgol Agored 4

**Y** Yr Alban 6